# DARGANFOD ARLOESEDD

## Mehefin – Awst 2017

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: dan y targed ■ Oren: Bron a chyrraedd y targed
■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed

### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth ■

Allbynnau allweddol yn ystod y chwarter:

- Erthyglau technegol a gyhoeddwyd:

DEFNYDDIO NITROGEN YN WELL MEWN GWARTHEG GODRO: BWYDO LLAI O BROTEIN I HEFFROD YN TYFU – ALLWN NI GYNNAL EU PERFFORMIAD? DR RUTH WONFOR

FERMIGOMPOSTIO: FFORDD ARALL O DRIN GWASTRAFF ORGANIG. DR WILLIAM STILES


AMAETH-GOEDWIGAETH: CYFLE I DDEFNYDDIO TIR AMAETH YN FWY DWYS A CHYNALIADWY, CYNHYRCHU MWY A LLEIHAU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

### Hyfforddiant DPP ar gyfer Swyddogion Technegol a Datblygu Cyswllt Ffermio


Cynhaliwyd y sesiwn DPP cyntaf ym mis Awst yn canolbwyntio ar bridd a charbon gyda'r bwriad o ddarparu staff Cyswllt Ffermio gyda gwell dealltwriaeth o brosesau pridd er mwyn trosglwyddo'r wybodaeth hon i gleientiaid sy'n ffermio.

Yn gyffredinol, bu'r digwyddiad yn llwyddiannus a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan staff CFf. Gwelodd y staff bod y deunydd yn eithaf heriol a diddorol, ond y cafwyd eu cyfleu'n glir gan y gwahanol siaradwyr.

Pa mor hawdd neu annodd oedd y deunydd pwnc i'w ddeall?




I ba raddau roedd y siaradwyr wedi cyfleu'r deunydd pwnc mewn ffordd eglur, yn eich barn chi?





### Pynciau'r Dyfodol Arfaethedig:

Mae nifer o bynciau'r dyfodol wedi'u cynnig yn cynnwys manteision glaswelltir aml-rywogaeth a pharasitoleg da byw a dulliau rheoli.

#### Ffermio Manwl Gywir

**Mae ffermio da byw yn glyfar neu ffermio da byw yn fanwl gywir yn anelu at gynyddu cynhyrchiant yr anifeiliaid a gwella iechyd a lles anifeiliaid, tra'n lleihau effeithiau amgylcheddol.**

**Cyflawnir gwelliant mewn cynhyrchiant yr anifeiliaid drwy ddefnyddio systemau monitro a rheoli amserol, sy'n rhybuddio'r fermwyr yn syth pan fydd problemau'n codi.**




**FFERMIO DA BYW CLYFAR/MANWL GYWIR**

**Ffermio Llaeth**

Paramedrau monitro:

- Tymheredd
- Dŵr
- Porthiant
- Hinsawdd
- Iechyd anifeiliaid
- Pwysau anifeiliaid
- Ymddygiad anifeiliaid
- Godro
- Lloia a ffrwythlondeb




| | |
|---|---|
| Monitro | Mae technoleg ffermio manwl gywir yn galluogi systemau i gael eu datblygu ar gyfer monitro gweithgaredd anifeiliaid sy'n gysylltiedig â lles anifeiliaid megis cilgnoad, tymheredd a chloffni |
| Gwell Cynaliadwyedd | Rheolaeth awtomatig ar gyfer cefnogi, rheoli a chynaliadwyedd systemau cynhyrchu anifeiliaid cymleth gan offer technegol i gynorthwyo ffermwyr |
| Technoleg Newydd | Mae datblygiadau yn cynnwys godro robotig, samplu a phwyso awtomatig, technoleg recordio bolws ar gyfer canfod asidosis a monitro ffrwythlondeb e.e. systemau New vitality (Fullwood) a systemau CowAlert (IceRobotics) |
| Cynhyrchiant uwch | Mae technoleg monitro yn galluogi ymateb brys i broblemau posibl gan leihau colledion cynhyrchiant, sy'n golygu bod gwella lles anifeiliaid yn arwain at gynhyrchiant uwch |
| Rheoli | Mae diwygio arferion rheoli drwy'r defnydd o dechnoleg yn bwysig i ffermwyr da byw er mwyn gwella effeithlonrwydd |
| Manteision economaidd | Mae proffidioldeb fferm wedi gwella yn sgil gwybodaeth sy'n ymwneud â chynhyrchiant a gynhyrchwyd gan systemau Ffermio Da Byw Manwl Gywir megis dadansoddiadau porthi a maeth |

Addaswyd o Aerts et al 2003, Fournel et al 2017.

## Partneriaeth Arloesi Ewrop



Gall gweithio'n unigol ei gwneud hi'n anodd i ganfod datrysiadau.


*Working in isolation can make finding solutions difficult.*



Mae EIP Amaeth Cymru yn cyllido grwpiau o unigolion sydd yn edrych am ddatrysiadau arloesol i sialensiau cyffredin.

*EIP Agri Wales funds groups of individuals seeking innovative solutions to similar challenges.*





Gellir cysylltu grwpiau ledled Ewrop i rannu syniadau a gwybodaeth ynglŷn â themâu cyffredin.

*Throughout Europe, groups can be linked up to share ideas and information on common themes.*

Cyhoeddodd Menter a Busnes yn Sioe Frenhinol Cymru eu bod wedi ennill y cytundeb ar gyfer darparu EIP yng Nghymru. Bydd y cynllun yn cefnogi busnesau i weithio gyda'i gilydd a datrys problemau neu roi cynnig ar dechnolegau newydd. Mae hyd at £40,000 ar gael ar gyfer pob prosiect ac mae digonedd o gymorth ar gael i bennu syniadau a datblygu cynlluniau prosiect.

### Teithiau Astudio

Bu'r grŵp trafod Grasshoppers Gorllewin Cymru ar ymweliad i Hampshire ym mis Mehefin.

Gweler isod prif gasgliadau a phwyntiau gweithredu'r grŵp wedi iddynt ddychwelyd o'u taith:

- Llunio data mwy cymharol o broffidioldeb ar gyfraddau porthi uwch.
- Cynnal profion Seicometrig personol fel grŵp.
- Adolygu ein hanghenion hyfforddi er mwyn datblygu ein dulliau rheoli.
- Cynnal taith gyfnewid gan y ffermwyr o Hampshire.
- Adolygu dulliau rheoli staff ar ffermydd yr holl aelodau.
- Adolygu ein PFC yn erbyn rhai'r ffermwyr llaeth yn Hampshire.



## Lab Amaeth




- Rhoddodd y Lab Amaeth lwyfan i brosiect gan Ganolfan Ffermio Manwl Gywir Harper Adams o'r enw 'Hands Free Hectare'. Nod y prosiect hwn yw ffermio un hectar o gnwd grawnfwyd o'i sefydlu hyd at ei gynhaeaf, heb orfod gosod troed yn y cae hwnnw. Yn ddiweddar, ennillodd y prosiect hwn sylw drwy'r cyfryngau cenedlaethol yn cynnwys rhaglenni BBC megis Countryfile a The One Show. Mae'r papur newydd The Times hefyd wedi cyhoeddi erthygl arlein, cliciwch yma i ddarllen yr erthygl.
- Bu sesiynau Un i Un gyda Ian Beecher Jones ar Ffermio Manwl Gywir yn boblogaidd iawn gyda sesiynau hanner awr o 10yb-4yp wedi'u llenwi ar y dydd Mawrth a'r dydd Mercher yn ystod wythnos Sioe Frenhinol Cymru. Cafwyd adborth gwych, yn cynnwys sylwadau megis:

*'Gwych gweld CFf yn cefnogi'r diwydiant tir âr'*

*'Cefais wybodaeth rhagorol o ran sut i weithredu ffermio manwl gywir ar fy fferm mewn modd ymarferol a phroffidiol'*

*'Diolch am gymryd yr amser i gynnal y sesiynau hyn'*

*'Byddaf yn rhoi cynnig ar ddefnyddio agronomeg ar gyfradd amrywiol ar fy fferm'*

*'Dysgais am yr opsiynau sydd ar gael i ffermwyr glaswelltir a'r buddsoddiad sydd ei angen'*